

CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysl Bro Dinbych

Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago

Ffôn- 07778511672

Ebost- andrasIago@outlook.com

Hydref 2018

Rhif 086

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fod prysurdeb capeli adeg diolchgarwch yn rhywbeth reit newydd i mi. Tydw i'n sicr ddim yn cofio'r un prysurdeb yn y de, ac mi ydw i'n hollol siŵr nad oedd y peiriant ateb ar y ffôn yn llenwi â negeseuon tebyg i'w gilydd ('Mrs. Roberts sydd yma o gapel Maeshosan, yn holi os ddowch chi aton ni ar pryd-a-pryd i roi pregeth diolchgarwch'). Rwy'n deall erbyn hyn mai cymryd mantais o wyneb newydd yn yr ardal yw'r prif reswm dros nifer y ceisiadau.

Gair bach iawn ydi diolch. Mae'n siŵr ei fod yn un o'r geiriau cyntaf bydd rhywun yn ceisio dysgu i blentyn – mae'n rhan mor bwysig o'r ffordd rydyn ni gyd yn gwneud â'n gilydd o ddydd i ddydd. Mae gwneud rhywbeth bach fel dal drws ar agor i rywun, a chlywed y gair 'diolch', bob amser yn codi calon ar ddiwrnod glawog. Ac mae cael rhywun yn mynd allan o'u ffordd i ddiolch yn beth gwerthfawr iawn.

Mae'r Beibl yn dweud llawer wrthym ni am ddiolch. Mae Iesu'n ein cyflwyno ni i'r Pharisead hunangyfiawn, oedd yn diolch i Dduw am ei fod yn well na phawb a phopeth, yn enwedig y casglwr trethi druan oedd wrthlaw. O oedd, roedd o'n ddyn diolchgar iawn. Ond pwynt yr hanes yw mai'r casglwr trethi sydd wedi ei deall hi go iawn: fo sy'n dod at Dduw gan gydnabod nad oes ganddo ddim i'w roi, a'i fod yn dibynnu'n llwyr ar drugaredd Duw. 'Dyma'r un aeth adref wedi ei gyfiawnhau', medd Iesu. Mae 'na rybudd yn yr hanes: i ni beidio 'cyfrif ein bendithion' mewn ffordd mor hunandwyllodrus, fel y gwnaeth y Pharisead. Ac hefyd, mae annogaeth: i ddod at Dduw fel y casglwr trethi, gan fod yn llwyr ymwybodol o'n hangen, a chan ymddiried yn ei ras a'i gariad atom yn Iesu.

Mae'n drawiadol hefyd cymaint o sôn sydd yn y Testament Newydd am ddiolch am ein gilydd – am ein brodyr a'n chworydd yn yr eglwys. Mae Paul yn sôn am ei hoffter a'i ddiolchgarwch, a'i dymuniad am bob daioni, i Gristnogion eraill. Wrth gwrdd y mis hwn, gadewch i ni fod yr un modd – yn ddiolchgar mewn gweddi am deulu'r eglwys, a'n daer ein gweddi am fendith Duw arnynt.

DIGWYDDIADUR

Cinio'r Fro

Cynhelir y cinio dydd Gwener Hydref 12fed yn y Capel Mawr am 12.00.

Astudiaethau Beiblaidd, bob pythefnos yn Ffestri Capel Trefnant am 1.30 y.p.

3/10, yna 17/10. Ein testun fydd y llythyr at y Philipiaid. Croeso cynnes i bawb!

Clwb Ieuenctid yn cyfarfod bob pythefnos yn Ffestri Capel y Dyffryn, 7-9 y.h.

5/10, yna'r cyfarfod nesaf ar 19/10. Croeso i bawb o oed uwchradd!

Cynhelir **Oedfa Diolchgarwch Undebol** yn y Fron Nos Iau Hydref 4ydd am 7 o'r gloch ar pregethwr gwadd ydi'r Parch Marcus Robinson.

Cymorth Cristnogol Noson Pwlin a Phaned yn Eglwys St Thomas, nos Fercher y 24ain o Hydref am 7 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd tuag at apêl Diolchgarwch.

Cofiwch, caiff yr arian a godir trwy'r apêl Diolchgarwch 2018 arian cyfatebol gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae hynny yn golygu **bydd pob £1 a godir yn y noson arbennig yma werth £5** i gynnal gwaith fydd yn newid bywydau yn Ethiopia, Burkina Faso, Honduras a Malawi.

CYNGERDD CÔR Y PORTHMYN

Nos Sul, Tachwedd 4ydd am 7.30 y.h.

Mynediad: £5 i oedolion.

Elw tuag at yr adeiladau.

Tocynnau ar gael gan aelodau Pwyllgor yr Adeiladau neu yn Siop Clwyd.

Parcio ar gael yn maes parcio

Ysgol Twm o'r Nant.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Iau, Hydref 4

2.00 – Oedfa Diolchgarwch gyda Parch. Christopher Prew, Porthmadog.

Croeso cynnes i bawbl

Dydd Sul, Hydref 7fed

2.00 – Parch Nesta Davies

Dydd Llun, Hydref 8fed

12-1.00 – Cinio Cynnil. Croeso cynnes i bawb

Dydd Sul, Hydref 14eg

2.00 – Parch. Andras Iago

BRWCWS

Dydd Iau, Hydref 4ydd

Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am 2.00

Oedfa Undebol Diolchgarwch yng Nghapel y Fron am 7.00 gyda'r Parch. Marcus Robinson.

Dydd Sul, Hydref 7ed

Trefniadau i'w cadarnhau.

Nos Lun, Hydref 8ed

Y Gymdeithas Ddiwylliadol yn y Fron am 7.00. Noson yng nghwmni Aeryn Jones, Dinmael.

Dydd Sul, Hydref 14eg

Ysgol Sul am 10.00

Parch. Nesta Davies am 2.00

Nos Fercher, Hydref 17eg

Cymdeithas y Chwiorydd yn y Fron am 7.00

Bwydydd Cyflawn gyda Eirian Jones.

Dechrau, Diolch a Phaned yng ngofal Chwiorydd y Brwcws.

Dydd Sul, Hydref 21ain

Ysgol Sul am 10.00

Parch. Andras Iago am 2.00

Dydd Sul, Hydref 28ain

Ysgol Sul am 10.00

Mr Richard Jones am 2.00.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul Hydref 7fed am 9.45 yb

Parch. Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 y.b.
Emyn a darllen plant - Ysgubor Wen
Organ - Ann
Blodau - Margaret, Rhiwbeyll

Dydd Sul Hydref 14eg am 9.45 yb

Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r plant
Organ - Lona
Blodau - Sioned

NOS LUN Hydref 15eg am 6.30 yh

Noson Agoriadol Y Gymdeithas

Dydd Sul Hydref 21ain am 9.45 yb

Gwasanaeth dan ofal Gwilym a Glenys
Organ - Iona
Blodau - Bethan

Dydd Sul Hydref 28ain am 11 yb

Parch Andras Iago (Cymun)
Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a darllen - Liz
Organ - Alaw
Blodau - Catrin

NOS LUN Hydref 29ain am 7yh

Y Gymdeithas - Gwyliau Gwych

GELLIFOR

Dydd Sul, Hydref 7fed

11.00 – Gweinidog

Llywydd y mis – Glen

Gwasanaeth Dechreuol – Glen

Offeryn – Alaw

Blodau – Alwena

Dydd Sul, Hydref 14eg

9.45 – Diolchgarwch

Llywydd - Gareth

Gwasanaeth Dechreuol – Elaine

Trefn ychwanegol – Rhodd i'r banc bwyd

Offeryn – Richard

Blodau – Pawb i ddod ag addurn.

Dydd Sul, Hydref 21ain

9.45 - Paned a sgwrs

Yng ngofal y baned – Hyw, Huw a Wyn

Blodau – Kate.

Dydd Sul, Hydref 28ain

9.45 - Gweinidog (Cymun)

Llywydd – Nic

Offeryn – Nia

Blodau - Kate

Y FRON

Llywydd y mis – Mrs. Wendy Lloyd Jones

Dydd Sul, Hydref 7fed

10.00 – Fron – Cyfarfod Gweddi

5.30 – Capel Mawr – Parch Nesta Davies

Dydd Sul, Hydref 14eg

10.00 – Capel Mawr – Parch Elfed ap Nefydd Roberts

5.30 – Fron – Parch Elfed ap Nefydd Roberts

Dydd Sul, Hydref 21ain

11.00 – Capel Mawr – Bugail – Oedfa Gymun

5.30 – Fron – Bugail

Dydd Sul, Hydref 28ain

10.00 – Fron – Mr Richard Jones, Bethel

5.30 – Capel Mawr – Mr Richard Jones, Bethel

Nos Iau Hydref 4ydd am 7 o'r gloch, Oedfa Diolchgarwch Undebol yn y Fron gyda'r Parch. Marcus Robinson.

Organyddion y mis – Iona Edwards ac Eiri Jones

Casglyddion y mis – Aelwyn Lloyd a John Geraint Jones

Blodau – yn gyfrifol Mrs Alwena Jones

7fed – Mrs Magi Jones

14eg – Mrs Gaynor Prew

21ain – Mrs Helena Morris

28ain – Teulu Fron Heulog

Croesawu –

7fed – Aelwyn Lloyd

14eg – Erfyl Williams

21ain – Dilys Davies

28ain – Gaynor Prew

Cyfarchion arbennig iawn i Mrs Anwen Williams yn ei chartref newydd yn 13 Cysgodfa, ac hefyd i Mrs. Magi Jones sydd wedi cael codwm a torri ei braich.

Dymuniadau gorau i'r plant ar bobl ifanc sydd yn cychwyn yn yr ysgol neu newid ysgol ac wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau. Yr ydym bob amser yn falch ohonnoch.

Mi fydd **Cyfarfod y Chwilyrydd Fron a'r Brwcws** yn cyfarfod ar **Nos Fercher Hydref 17eg** am 7 o'r gloch pryd y bydd Eirian Jones yn rhoi sgwrs am Fwydydd Cyflawn.

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws

Noson agoriadol yng nghwmni Aeryn Jones, Dinmael

Nos Lun, Hydref 8fed, am 7yh yn festri Capel y Fron.

Croeso cynnes i bawb. Pris rhaglen am y tymor: £3.

CAPEL MAWR A SEION

** DALIER SYLW

Pan fo'r Gweinidog gyda ni yn Y Capel Mawr neu'r Fron bydd yr oedfa am 11 y.b.

Dydd Iau, Hydref 4

Diwrnod Diolchgarwch y Dref

10am – Cyfarfod Gweddi eglwysi rhan uchaf y dref yn Y Capel Mawr

7pm – Oedfa ddiolchgarwch undebol y dref yn Y Fron – pregethir gan y Parch. Marcus Robinson, Bethel

Dydd Sul, Hydref 7

10am – Y Fron – Cyfarfod Gweddi

5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Nesta Davies

Dydd Llun, Hydref 8

Cyfarfod Gweddi – 1.30pm

Dydd Sul, Hydref 14

10am – Y Capel Mawr - Y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts, Abergele

5.30pm – Y Fron - Y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts, Abergele

Dydd Mawrth, Hydref 16

Yr Aelwyd am 1.30pm – Cath Williams. Llansannan, yn siarad ar y testun "Ar gen Fy Meic"

Dydd Sul, Hydref 21

*11am – Y Fron - Y Bugail – gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon

5.30pm – Y Capel Mawr - Y Bugail

Dydd Sul, Hydref 28

10am – Y Capel Mawr - Mr Richard Jones, Bethel

5.30pm – Y Fron – Mr Richard Jones, Bethel

Llywydd Y Mis: Mr Ifor J. Jones

Casglyddion:-

Mrs Ann Jones

Mrs Mair Jones

Wrth y Drws:-

Mrs Ann Jones

Mrs Mair Jones

Organydd/ Cyfellydd:-

Hydref 7 – Mrs Catrin Warren

Hydref 14 – Mrs Catrin Warren

Hydref 21- Mrs Dorothy Rogers

Hydref 28- Mrs Dorothy Rogers

BLODAU

Hydref 14 – Mrs Phyllis Lloyd

LLETY'R PREGETHWYR

Hydref 28 – Y Fron

COLLI AELOD - Gyda thristwch mawr y clywodd yr aelodau am farwolaeth Mr. Meurig Voyle ar y trydydd o Fedi. Bu'n aelod blaenllaw yn yr eglwys yn dilyn ymgartrefu yn y dref dros hanner can mlynedd yn ôl. Yn ogystal â bod yn flaenor, bu'n ysgrifennydd y cyhoeddiadau ac yn athro Ysgol Sul yn yr eglwys. Roedd hefyd wedi trwytho'i hun yn nhrefniadau a rheolau Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac yn Fethodist Calfinaidd rhonc. Bu'n aelod blaenllaw yn y gymuned hefyd, a mawr fydd y bwch yn Nyffryn Clwyd ar ei ôl. Cynhaliwyd ei angladd ar brynhawn Gwener, Medi 14eg yn Y Capel Mawr dan arweiniad y Parch. Andras Iago, y gweinidog. Yr organyddes oedd Mrs Dorothy Rogers.

Bu'r traddodiad y diwrnod canlynol ym mynwent Eglwys Sant Twrog, Llanddarog, Sir Gaerfyrddin. Hiraethwn amdano a chydymdeimlwn â'i fab Huw a'r merched Rhian a Sharon a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

MEDDYLIWN AMDANOCH - Cawsom ar ddeall nad yw rhai ohonoch mewn llawn hwyliau ar hyn o bryd gyda rhai ohonoch yn gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau atoch.

YR AELWYD

Cafwyd cyfarfod Aelwyd Capel Mawr ar y 18fed o fis Medi.

Dechreuwyd gan Helena Williams y llywydd a chawsom weddi addas iawn at ddechrau'r tymor ganddi.

Roedd gennym ddau wr gwadd, sef Clwyd Wynne a Dafydd Jones.

Roeddent wedi dod i siarad am yr hen Ysbyty Meddwl, sef Ysbyty

Gogledd Cymru. Cawsom hanes codi'r Ysbyty agorwyd ym 1848. Cafodd

llawer ohonom agoriad llygad yn ystod y pwn. Roedd yn llawer mwy

nag adeilad, yn fwy fel pentref hunangynhaliol. Cafodd gymaint o bobl

Dinbych waith yno gyda pob math o swyddi ar eu cyfer. Hefyd roedd y

cleifion yn gweithio yn y gwahanol feysydd fel rhan o'u triniaeth. Roedd

pob math o adloniant ar eu cyfer, yn gyngherddau, dawnsteydd dramau a

phethau eraill. Roedd y dull o drin cleifion wedi newid llawer a dyddiau eu

cuddio o'r golwg wedi mynd, a'r driniaeth yn llawer mwy tirion. Cauwyd yr

Ysbyty ym 1995, colled fawr i'r ardal. Mae'n drist gweld yr adeilad hardd

hwn, a'r neuadd fawr anhygoel wedi ei ddifrodi.

Diolchwyd i'r ddau gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am

baratoi paned. Diolch hefyd i Gwilym Luke Jones am osod y "power

point" yn barod.

Mae rhai o'n aelodau ddim yn dda ar hyn o bryd a buom yn meddwl

amdanynt a gobeithio'r gorau iddynt.

Hydref 8fed.....Cyfarfod Gweddi am 1.30

Hydref 16.....Yr Aelwyd am 1.30. Bydd Cath Williams, Llansannan, yn rhoi

sgwrs am ei theithiau "ar gefn ei beic"

Croeso i bawb ddod i'r ddau gyfarfod.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Hydref 7fed

9.45 - Prion - Parch Nesta Davies

Dydd Sul, Hydref 14eg

9.45 - Pentre - Gweinidog a Gwasanaeth Diolchgarwch y plant a'r bobl ifanc

Dydd Sul, Hydref 21ain

9.45 - Pentre - Mr Dewi Williams

Dydd Sul, Hydref 28ain

9.45 - Prion - Parch Glyn Thomas

LLONGYFARCHIADAU - I Mrs Glenys Jones, Coed y Fron ar ddoed yn hennain i Henri Aled, mab bach lw wyres Elen a Kevin yng Nghae'r Felin. Pob bendith i'r teulu bach.

CYDYMDEIMLO - Cofion at Mrs Mair Hughes sydd wedi colli ei brawd yng nhyfraith, Mr Glyn Jones o Lanbedr.

COFION a gwellhad buan i Carol, Coed y Crwth ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

CYMDEITHAS Nos Wener, 5ed Hydref 2018 am 6yh

Noson agoriadol y Gymdeithas fydd swper o lobsgows a phwddin, ac adloniant yng nghwmni Sion, Cerys, a Catherine Edwards Pwllglas. Pris swper £5 ac am ddim i blant. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL

GWASANAETH DIOLCHGARWCH PLANT A'R BOBL IFANC

Eleni, mae plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul wedi dewis cefnogi'r ymgyrch elusen "Toilet Twinning" wrth baratol at eu Gwasanaeth Diolchgarwch.

Mae'n golygu casglu arian, £60 i feillio un toiled neu £240 am res o doiledau mewn ysgol yng ngwlad tlawd Burundi, yn Affrica.

Mae Tearfund ac elusen o'r enw Cord yn helpu pobl i adeiladu toiledau syml, mewn cwt. Wedyn fe gawn dystysgrifyn yn dweud diolch, a llun o'r toiled(ad) yn Burundi.

Os hoffech chi gyfrannu tuag at ein apêl ni i gasglu arian tuag at y fenter bwysig yma, bydd modd i chi wneud hynny yn ystod ein gwasanaeth diolchgarwch at 14eg Hydref neu drwy law Llinos ar ran yr Ysgol Sul. Yn ystod y gwasanaeth byddwn yn cyflwyno mwy o wybodaeth am "Toilet Twinning".

Plis helpwch ni gyrraedd y targed o £240.

Hefyd, yn hytrach na'r rhoddion diolchgarwch traddodiadol megis ffrwythau, llysiau a thuniau, mae'r ysgol Sul wedi penderfynnu cyfrannu nwyddau ar gyfer eu defnyddio yn y tŷ bach a nwyddau iechydol a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r banc bwyd ar gyfer pobl lleol



Ymweliad capel Llanrhaeadr a "Drysau Agored" Capel y Tabernacl Rhuthun



Sesiwn gyda ein arweinydd ifanc Lilo Evans yn dysgu'r criw iau am "Samson" yn y parc. Cawsom lot o hwyl yn codi pwysau a chwarae gemau. Mae gennym blant a phobl ifanc cryf iawn yng nghapel y pentrell!



Eglwys Bresbyteraidd Saesneg Rhuthun

Y GLYN

Dydd Sul, Hydref 7fed

2.00 Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r Parch. Andras Iago

Dydd Sul, Hydref 28ain

2.00 Cynhelir Oedfa gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

Dydd Sul, Medi 16eg cafwyd diwrnod pleserus iawn yn yr 'Ysgwrn', Trawsfynydd, pawb wedi mwynhau gweld yr Ysgwrn a'r ei newydd wedd, a diolch i Nalomi am ein tywys o amgylch, ac am adrodd yr hanes mor drylwyr er mor drist, yna aethom ymlaen i'r "Eryrod" i Lanuwchllyn am bryd o fwyd cyn troi am adre.

Diolchwyd i Marian Tŷ Mawr am drefnu'r diwrnod, ac i Marian Llys am ein cludo yn ofalus iawn yng Nghart y Plwyf.

TREFNANT

Llywydd y Mis : HYWEL a DILYS HUGHES

Dydd Sul, Hydref 7fed

10.00 Parch. Eric Jones 11.15 YSO

3.30 Parch. Eric Jones

Blodau : Diolchgarwch

Nos Fawrth Hydref 9fed

7.00 pm : Gwasanaeth Gweddi a Diolch.

Nos Fercher Hydref 10fed

6.30 pm : Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni'r Parch. Jim Clarke gyda swper i ddilyn. Casgliad er budd Cymorth Cristnogol.

Dydd Sul Hydref 14eg

10.00 Mr Arwel Roberts 11.15 YSO

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Rhian Hughes

Dydd Sul Hydref 21ain

10.00 Mr Dafydd Iwan 11.15 YSO

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Rhian Hughes

Dydd Sul Hydref 28ain

10.00 Parch. Nesta Davies 11.15 YSO

3.00 Parch. Nesta Davies gyda phaned i ddilyn

Blodau : Gwyneth Evans

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun wedi ail-ddechrau ar waith y tymor ar brynawniau Llun yn y festri. Yn ogystal a chyfle i addoli, cymdeithasu, sgwrsio a mwynhau paned, mae'r cynnyrch a gyflawnir o fudd arbennig i bobl a phlant lleol a thramor. Mae'n braf fod y bwrdd yn llawn unwaith eto a'r bwrlwm a'r cymdeithasu mor fywiog ag erioed! Mae croeso o hyd, wrth gwrs, i chi drol i fewn i fwynhau'r cwmni.

CYFARCHION arbennig i Marian Roberts sydd wedi treulio wythnosau yn yr Inffymari ac estynnwn yr un cyfarchion i Glen - mae wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd ond erbyn hyn wedi cyrraedd adre. Cofiw'n am a gweddiwn dros eraill, hefyd, sydd wedi eu cyfyngu i'w cartrefi yn ddiweddar a disgwyliwn eich croesawu yn ôl atom yn fuan.

GWYL DDIOLCHGARWCH Cofiw'n am yr Wyl eleni nosweithiau Mawrth a Mercher, Hydref 9fed a 10fed - bydd cyfarfod Gweddi ar y Nos Fawrth, a disgwyliwn y Parchedig Jim Clarke atom i wasanaethu ar y Nos Fercher gyda Swper Diolchgarwch i ddilyn. Hon ydy noson gyntaf y Gymdeithas hefyd, a bydd cyfle i ni ddangos ein diolch drwy gyfrannu at Cymorth Cristnogol. Bydd ail gyfarfod y GYMDEITHAS ar Nos Wener, Hydref 26ain gyda noson o gemau dan ofal Angharad a Mali Ellis. Mae rhaglen y Gymdeithas am eleni wedi dod i law ac i'w chael yn y Capel - diolch i'r Swyddogion am eu gwaith. Croeso cynnes i bawb yn y pentre ymuno yn y gweithgareddau.

Rwy'n ysgrifennu'r neges hon wrth ymlacio yn yr haul ym mynyddoedd y Sierra Nevada yn ne Sbaen. Mae 'r llethrau yma dipyn mwy serth na rhai Dyffryn Clwyd a'r ffordd yn gul a mwy troellog na'r ffordd o Rhuthun i'r Wyddgrug, ac anodd iawn oedd dygymod a nhw mewn car dieithr a minnau ar ochr arall i'r ffordd ar brawn chwilboeth wedi inni gyrraedd. Roeddwn yn chwys iafar, ac roedd fy nghalon yn fy ngwddw! Ond y sioc fwyaf i mi a'n ffrind (sy'n gloff ac yn cerdded efo dwy ffon) oedd bod rhaid cerdded i fyny am tua chwarter awr o gyrion y pentref i'n tŷ haf! Soniwyd ddim am hynny yn y disgrifiad o'r lle ar y safle we. A wir i chi ... roeddem ni'n dwy yn falch bod y perchnogion wedi cynnig ein helpu efo'r cesys. Roedd hi mor boeth, a ninnau wedi blino ian am ein bod wedi cychwyn am 4.30 y bore!

Ond ... gwnaethon y gorau o'r gwaethaf. A pheidio a gwneud gormod bob dydd. Byw heb ffon symudol/radio/teledu/ DVD /papur newydd am bythefnos a threfnu dyddiau pan fo'r tywydd yn caniatáu! Ond mi gawson ni'r we, i ffeindio allan am lefydd i ymweld yn y cyffiniau a sut i osgoi'r glaw a'r stormydd. A rywsut, mi wnaethon oresgyn y problemau, arafu, a gweld y wlad yn ei holl ogoniant. A dysgu mwy amdanon ni'n hunain yn y broses, a sut i osgoi digalonni a rhoi'r gorau i bethel! Daf ati efo gwen ar ein hwynebaw. Gwers dda i dysgu am y fwyddyn sydd i ddod ... dyfalbarhau. Gobeithio y gwnewch chi hynny hefyd!



Newyddion rhifyn Tachwedd o'r Cadwyn Bro, erbyn dydd Gwener Hydref 19
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417